**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2007 Rhif 1029 (Cy.96)

## ANIFEILIAID, CYMRU

## LLES ANIFEILIAID

# Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Yn ôl adrannau 5 (1) a (2) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (p.45) ("y Ddeddf") tramgwydd yw gwneud y canlynol i anfeiliaid sy'n cael eu gwarchod o dan y Ddeddf honno:

(a) rhoi triniaeth waharddedig;

(b) peri rhoi triniaeth waharddedig; neu

(c) o dan amgylchiadau penodedig, ganiatáu i berson arall roi triniaeth waharddedig.

Ystyr "rhoi triniaeth waharddedig" yw gwneud rhywbeth sy'n cynnwys ymyrryd â meinweoedd sensitif (e.e. croen) neu strwythur esgyrn yr anifail heblaw at ei drin yn feddygol (gweler adran 5(3) o'r Ddeddf).

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r triniaethau nad ydynt yn dramgwyddau yn ôl adran 5(1) a 5(2). Gan ddibynnu ar yr anifeiliaid y mae'r triniaethau i'w rhoi iddynt, caiff y triniaethau hynny gynnwys triniaethau at:

(a) adnabod yr anifeiliaid (fel tagiau clust);

(b) rheoli atghenhedlu (fel ysbaddu, cyweirio neu dorri ar anifail, a fasdoriad (hynny yw, fasectomi)); ac

(c) triniaethau at ddibenion eraill (fel laparosgopi) (*Atodlen 1*).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2007 No. 1029 (W.96)

## ANIMALS, WALES

## ANIMAL WELFARE

# The Mutilations (Permitted Procedures) (Wales) Regulations 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

It is an offence under section 5(1) and (2) of the Animal Welfare Act 2006 (c.45) ("the Act") to do the following to animals protected by that Act:

(a) carry out a prohibited procedure;

(b) cause the carrying out of a prohibited procedure; or

(c) in specified circumstances, permit another person to carry out a prohibited procedure .

A prohibited procedure is one which involves interference with the sensitive tissues (e.g. skin) or bone structure of the animal, otherwise than for the purpose of its medical treatment (see section 5(3) of the Act).

These Regulations specify the procedures to which the offences in section 5(1) and 5(2) do not apply. Depending upon the animals to which they are to be applied, such procedures may include those for the purposes of:

(a) identification (such as ear tagging);

(b) the control of reproduction (such as castration and vasectomy); and

(c) other purposes (such as laparoscopy) (Schedule 1).

Am rai o'r triniaethau hyn, ac unwaith eto gan ddibynnu ar yr anifeiliaid y mae caniatâd i'w rhoi iddynt, mae Atodlenni 2 i 9 yn gosod cyfyngiadau ar roi'r driniaeth (fel pennu oedran y mae'n rhaid i'r anifail fod ynddo, neu bennu bod rhaid rhoi anesthetig).

O ran triniaethau penodol y caniateir eu rhoi i foch, mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu paragraff 8 o Bennod I o'r Atodiad i Gyfarwyddeb y Cyngor 91/630/EEC sy'n gosod y safonau gofynnol ar gyfer gwarchod moch (OJ Rhif L340, 11.12.1991, t.33), fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2001/88/EC, OJ Rhif L316, 1.12.2001, t.1), Cyfarwyddeb y Comisiwn 2001/93/EC (OJ Rhif L316, 1.12.2001, t.36) a Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 806/2003 (OJ Rhif L122, 16.5.2003, t.1). O ran tocio pig ieir dodwy, mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu paragraff 8 o'r Atodiad i Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/EC sy'n gosod y safonau gofynnol ar gyfer gwarchod ieir dodwy (OJ Rhif L203, 3.8.1999, p.53, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 806/2003 (OJ Rhif L122, 16.5.2003, t.1).

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi. Gellir cael copïau ohono oddi wrth Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

For certain of these procedures, and again depending upon the animals in respect of which they are permitted, Schedules 2 to 9 apply restrictions to the carrying out of the procedure (such as specifying a required age for the animal, or requiring the administration of an anaesthetic).

In respect of certain procedures permitted to be applied to pigs, these Regulations implement paragraph 8 of Chapter I of the Annex to Council Directive 91/630/EEC laying down minimum standards for the protection of pigs (OJ No. L340, 11.12.1991, p.33), as amended by Council Directive 2001/88/EC (OJ No. L316, 1.12.2001, p.1), Commission Directive 2001/93/EC (OJ No. L316, 1.12.2001, p.36) and Council Regulation (EC) No. 806/2003 (OJ No. L122, 16.5.2003, p.1). In respect of the beak trimming of laying hens, these Regulations implement paragraph 8 of the Annex to Council Directive 1999/74/EC laying down minimum standards for the protection of laying hens (OJ No. L203, 3.8.1999, p.53), as amended by Council Regulation (EC) No. 806/2003 (OJ No. L122, 16.5.2003, p.1).

A regulatory appraisal has been prepared. Copies may be obtained from the Office of the Chief Veterinary Officer of the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 1029 (Cy.96)

# ANIFEILIAID, CYMRU

# LLES ANIFEILIAID

## Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *27 Mawrth 2007* |
| *Yn dod i rym* | *28 Mawrth 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef o ran Cymru, yr awdurdod cenedlaethol priodol at ddibenion arfer y pwerau a roddwyd gan 5(4) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau hynny.

Yn unol ag adran 5(5) o'r Ddeddf honno, mae'r Cynulliad wedi ymgynghori â'r personau hynny sydd yn ei farn ef yn briodol am eu bod yn cynrychioli buddiannnau y mae a wnelo'r Rheoliadau hyn â hwy.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007. Maent yn gymwys i Gymru a deuant i rym ar 28 Mawrth 2007.

**Dehongli**

**2**. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "a ffermir" ("*farmed*") yw, o ran anifail, a fegir neu a gedwir at gynhyrchu bwyd, gwlân neu groen neu at ddibenion ffermio eraill;

mae "ceffylau" ("*horses*") yn cynnwys merlod, asynnod, a mulod;

ystyr "dadimpio" ("*disbudding*") yw tynnu impiadau cyrn gwartheg, geifr neu ddefaid;

ystyr "dofednod" ("*poultry*") yw ffowls domestig, tyrcwn, gwyddau, hwyaid, ieir gini, soflieir, ffesantod a phetrisod;

(**1**) 2006 p.45. Diffinnir yr awdurdod cenedlaethol priodol yn adran 62(1) o'r Ddeddf.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 1029 (W.96)

# ANIMALS, WALES

# ANIMAL WELFARE

## The Mutilations (Permitted Procedures) (Wales) Regulations 2007

| | |
|---|---|
| *Made* | *27 March 2007* |
| *Coming into force* | *28 March 2007* |

The National Assembly for Wales being, in relation to Wales, the appropriate national authority for the purpose of exercising the powers conferred by section 5(4) of the Animal Welfare Act 2006(**1**),makes the following Regulations in exercise of those powers.

In accordance with section 5(5) of that Act, the Assembly has consulted those persons appearing to it to represent interests with which these Regulations are concerned as it considered appropriate.

**Title, commencement and application**

**1**. The title of these Regulations is the Mutilations (Permitted Procedures) (Wales) Regulations 2007. They apply in relation to Wales and come into force on 28 March 2007.

**Interpretation**

**2**. In these Regulations-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Animal Welfare Act 2006;

"cattle" ("*gwartheg*") means all animals of the bovine species including bison and buffalo;

"desnooding" ("*torri crogrib*") means removal of a turkey's snood;

"disbudding" ("*dadimpio*") means removal of the horn bud of cattle, goats or sheep;

(**1**) 2006 c.45. The appropriate national authority is defined in section 62(1) of the Act.

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Lles Anifeiliaid 2006;

ystyr "ffowlyn domestig" ("*domestic fowl*") yw aelod dof o'r rhywogaeth *Gallus gallus*;

ystyr "gwartheg" ("*cattle*") yw pob anifail o'r rhywogaeth fuchol gan gynnwys bison a byfflo;

ystyr "triniaeth waharddedig" ("*prohibited procedure*") yw triniaeth sy'n cynnwys ymyrryd â meinweoedd sensitif neu strwythur esgyrn yr anifail heblaw at ddibenion ei drin yn feddygol;

ystyr "iâr ddodwy" ("*laying hen*") yw iâr o'r rhywogaeth *Gallus gallus* sydd wedi cyrraedd aeddfedrwydd dodwy ac sy'n cael ei chadw i gynhyrchu wyau na fwriedir iddynt ddeor;

ystyr "offeryn addas" ("*suitable instrument*") yw, o ran unrhyw driniaeth, offeryn sydd mewn cyflwr da ac sydd wedi'i ddylunio at roi'r driniaeth honno neu a ddefnyddir yn gyffredin at roi'r driniaeth honno;

ystyr "torri crib" ("*dubbing*") yw tynnu crib ffowlyn domestig;

ystyr "torri crogrib" ("*desnooding*") yw tynnu crogrib twrci;

ystyr "yn bwrw eu melfed" ("*in velvet*") yw o ran cyrn carw, y broses sy'n cynnwys y melfed yn raflio hyd nes i'r rhan fwyaf ohono gael ei fwrw.

"domestic fowl" ("*ffowlyn domestig*") means a domesticated member of the species gallus gallus;

"dubbing" ("*torri crib*") means removal of the comb of a domestic fowl;

"farmed" ("*a ffermir"*) means an animal bred or kept for the production of food, wool or skin or for other farming purposes;

"horses" ("*ceffylau*") includes ponies, asses, donkeys, jennets and mules;

"in velvet" ("*yn bwrw eu melfed*") means, in relation to the antlers of a deer, until the velvet is frayed and the greater part of it has been shed;

"laying hen" ("*iâr ddodwy*") means a hen of the species *Gallus gallus* which has reached laying maturity and is kept for production of eggs not intended for hatching;

"poultry" ("*dofednod*") means domestic fowl, turkeys, geese, ducks, guinea fowl, quails, pheasants and partridges;

"prohibited procedure" ("*triniaeth waharddedig*") means a procedure which involves interference with the sensitive tissues or bone structure of an animal, otherwise than for the purpose of its medical treatment;

"suitable instrument" ("*offeryn addas*") means in relation to any procedure, an instrument that is in a fit state of repair and has been designed, or is of a kind commonly used, for the purpose of performing that procedure.

**Eithriadau i'r gwaharddiad ar anffurfio**

**3**. Nid yw adran 5(1) a (2) o'r Ddeddf yn gymwys i driniaeth a restrir yn Atodlen 1, ar yr amod y rhoddir y driniaeth-

(a) yn unol ag unrhyw ofyniad perthnasol yn Atodlenni 2 i 9;

(b) mewn dull sy'n cadw lefel y boen a'r dioddefaint i'r anifail i leiafswm;

(c) mewn amgylchiadau hylan; ac

(ch) yn unol ag arferion da.

**Exceptions to the prohibition on mutilations**

**3**. Section 5(1) and (2) of the Act does not apply to a procedure listed in Schedule 1, providing that the procedure is carried out-

(a) in accordance with any relevant requirement in Schedules 2 to 9;

(b) in such a way as to minimise the pain and suffering it causes to the animal;

(c) in hygienic conditions; and

(d) in accordance with good practice.

**Cyfalwni triniaethau gwaharddedig mewn argyfwng**

**4**.-(1) Nid yw adran 5(1) a (2) o'r Ddeddf yn gymwys pan fo triniaeth waharddedig yn cael ei rhoi mewn argyfwng er mwyn arbed bywyd yr anifail a warchodir(**1**) neu er mwyn lleddfu ei boen.

(2) Rhaid i unrhyw driniaeth a roddir o dan baragraff (1) gael ei rhoi yn unol â rheoliad 3, i'r graddau y mae'n ymarferol o dan yr holl amgylchiadau.

**Performance of prohibited procedures in an emergency**

**4**.-(1) Section 5(1) and (2) of the Act does not apply where a prohibited procedure is carried out in an emergency for the purpose of saving the life or relieving the pain of the protected animal(**1**).

(2) Any procedure carried out under paragraph (1) must be carried out in accordance with regulation 3, so far as this is practicable in all of the circumstances.

(**1**) 2006 p.45 Mae i "anifail a warchodir" yr ystyr a rhoddir I "protected animal" yn adran 2 o'r Ddeddf

(**1**) 2006 c.45 Protected animal is defined in section 2 of the Act

**Personau sy'n cael rhoi triniaethau a ganiateir**

**5**.-(1) Nid oes caniatâd i unrhyw driniaeth a ganiateir o dan reoliad 3 gael ei rhoi ond gan filfeddyg neu gan unrhyw berson arall y mae caniatâd iddo roi'r driniaeth honno o dan Ddeddf Milfeddygon 1996(**1**) neu Orchymyn Milfeddygon (Esemptiadau) 1962(**2**).

(2) Nid yw'r cyfyngiad ym mharagraff (1) yn gymwys i-

(a) tocio cynffonnau, neu

(b) ysbaddu

moch nad ydynt yn hyn na 7 niwrnod oed.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

27 Mawrth 2007

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

**Persons who may carry out permitted procedures**

**5**.-(1) Any procedure permitted under regulation 3 may only be carried out by a veterinary surgeon or any other person permitted to carry out that procedure under the Veterinary Surgeons Act 1966(**1**) or the Veterinary Surgeons (Exemptions) Order 1962(**2**).

(2) The restriction in paragraph (1) does not apply to-

(a) tail docking, or

(b) castration

of pigs aged not more than 7 days.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**3**).

27 March 2007

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1966 p.36; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1988/526, 1991/1412, 2002/1479.

(**2**) O.S. 1962/2557; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1982/1627, 2002/1646.

(**3**) 1998 p.38.

(**1**) 1966 c.36; relevant amending instruments are S.I. 1988/526, 1991/1412, 2002/1479.

(**2**) S.I. 1962/2557; relevant amending instruments are S.I. 1982/1627, 2002/1646.

(**3**) 1998 c.38.

## ATODLEN 1

Rheoliad 3

## TRINIAETHAU A GANIATEIR

**Gwartheg**

Triniaethau Adnabod:

Clipio clustiau.

Bylchu clustiau.

Tagio clustiau.

Rhewfrandio.

Microsglodynnu.

Tatwio.

Dulliau eraill o adnabod anifeiliaid sy'n cynnwys anffurfiad sy'n ofynnol gan y gyfraith.

Triniaethau ar gyfer Rheoli Atgenhedlu.

Ysbaddu.

Caglu embryonau neu'u trosglwyddo drwy ddull llawfeddygol.

Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen.

Trosglwyddo ofa, gan gynnwys casglu ofa drwy ddull llawfeddygol.

Fasdoriad.

Triniaethau Rheoli Eraill:

Digornio.

Dadimpio.

Modrwyo trwynau .

Tynnu tethi ychwanegol.

**Moch**

Triniaethau Adnabod:

Clipio clustiau.

Bylchu clustiau.

Tagio clustiau.

Microsglodynnu.

Tatwio.

## SCHEDULE 1

Regulation 3

## PERMITTED PROCEDURES

**Cattle**

Identification Procedures:

Ear clipping.

Ear notching.

Ear tagging.

Freeze branding.

Micro-chipping.

Tattooing.

Other methods of identification involving a mutilation required by law.

Procedures for the Control of Reproduction:

Castration.

Embryo collection or transfer by a surgical method.

Implantation of a subcutaneous contraceptive.

Ovum transplantation, including ovum collection, by a surgical method.

Vasectomy.

Other Management Procedures:

Dehorning.

Disbudding.

Nose ringing.

Removal of supernumerary teats.

**Pigs**

Identification Procedures:

Ear clipping.

Ear notching.

Ear tagging.

Micro-chipping.

Tattooing.

Dulliau eraill o adnabod anifeiliaid sy'n cynnwys anffurfiad sy'n ofynnol gan y gyfraith.

Triniaethau ar gyfer Rheoli Atgenhedlu.

Ysbaddu.

Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen.

Fasdoriad.

Triniaethau Rheoli Eraill:

Modrwyo trwynau (cwirso).

Tocio cynffonnau.

Lleihau dannedd.

Tocio ysgithrau.

**Adar**

Triniaethau Adnabod:

Microsglodynnu.

Dulliau eraill o adnabod anifeiliaid sy'n cynnwys anffurfiad sy'n ofynnol gan y gyfraith.

Triniaethau ar gyfer Rheoli Atgenhedlu.

Ysbaddu.

Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen.

Ofidectomi.

Fasdoriad.

Triniaethau Rheoli Eraill:

Tocio pig dofednod.

Torri crogrib.

Tynnu bysedd traed ffowls domestig a thyrcwn.

Torri crib.

Laparosgopi.

Tocio blaenau adennydd.

**Defaid**

Triniaethau Adnabod:

Clipio clustiau.

Bylchu clustiau.

Tagio clustiau.

Microsglodynnu.

Tatwio.

Other methods of identification involving a mutilation required by law.

Procedures for the Control of Reproduction:

Castration.

Implantation of a subcutaneous contraceptive.

Vasectomy.

Other Management Procedures:

Nose ringing.

Tail docking.

Tooth reduction.

Tusk trimming.

**Birds**

Identification Procedures:

Micro-chipping.

Other methods of identification involving a mutilation required by law.

Procedures for the Control of Reproduction:

Castration.

Implantation of a subcutaneous contraceptive.

Ovidectomy.

Vasectomy.

Other Management Procedures:

Beak trimming of poultry.

Desnooding.

De-toeing of domestic fowl and turkeys.

Dubbing.

Laparoscopy.

Wing pinioning.

**Sheep**

Identification Procedures:

Ear clipping.

Ear notching.

Ear tagging.

Micro-chipping.

Tattooing.

Dulliau eraill o adnabod anifeiliaid sy'n cynnwys anffurfiad sy'n ofynnol gan y gyfraith.

Triniaethau ar gyfer Rheoli Atgenhedlu.

Ysbaddu.

Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen.

Fasdoriad.

Triniaethau Rheoli Eraill:

Digornio.

Dadimpio.

Tynnu blaen ansensitif y corn.

Tocio cynffonnau.

**Geifr**

Triniaethau Adnabod:

Clipio clustiau.

Bylchu clustiau.

Tagio clustiau.

Microsglodynnu.

Tatwio.

Dulliau eraill o adnabod anifeiliaid sy'n cynnwys anffurfiad sy'n ofynnol gan y gyfraith.

Triniaethau ar gyfer Rheoli Atgenhedlu.

Ysbaddu.

Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen.

Fasdoriad.

Triniaethau Rheoli Eraill:

Digornio.

Dadimpio.

Tynnu blaen ansensitif y corn.

**Ceffylau**

Triniaethau Adnabod:

Rhewfrandio.

Poethfrandio.

Microsglodynnu.

Tatwio.

Dulliau eraill o adnabod anifeiliaid sy'n cynnwys

Other methods of identification involving a mutilation required by law.

Procedures for the Control of Reproduction:

Castration.

Implantation of a subcutaneous contraceptive.

Vasectomy.

Other Management Procedures:

Dehorning.

Disbudding.

Removal of the insensitive tip of the horn.

Tail docking.

**Goats**

Identification Procedures:

Ear clipping.

Ear notching.

Ear tagging.

Micro-chipping.

Tattooing.

Other methods of identification involving a mutilation required by law.

Procedures for the Control of Reproduction:

Castration.

Implantation of a subcutaneous contraceptive.

Vasectomy.

Other Management Procedures:

Dehorning.

Disbudding.

Removal of the insensitive tip of the horn.

**Horses**

Identification Procedures:

Freeze branding.

Hot branding.

Micro-chipping.

Tattooing.

Other methods of identification involving a

anffurfiad sy'n ofynnol gan y gyfraith.

Triniaethau ar gyfer Rheoli Atgenhedlu.

Ysbaddu.

Fasdoriad.

**Ceirw**

Triniaethau Adnabod:

Clipio clustiau.

Bylchu clustiau.

Tagio clustiau.

Microsglodynnu.

Tatwio.

Dulliau eraill o adnabod anifeiliaid sy'n cynnwys anffurfiad sy'n ofynnol gan y gyfraith.

Triniaethau ar gyfer Rheoli Atgenhedlu.

Ysbaddu.

Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen.

Fasdoriad.

Triniaethau Rheoli Eraill:

Tynnu cyrn pan na fydd ceirw yn bwrw eu melfed.

**Rhywogaethau eraill**

Triniaethau Adnabod:

Clipio clustiau.

Bylchu clustiau.

Torri blaen clust chwith cathod lledwyllt.

Gosod dyfeisiau olrhain o dan y croen.

Tagio.

Brandio pysgod yn gemegol.

Rhewfrandio pysgod.

Microsglodynnu.

Tynnu neu dyllu rhannau o adennydd psygod, adennydd brasterog pysgod neu belydrau adennydd pysgod.

Tatwio.

Dulliau eraill o adnabod anifeiliaid sy'n cynnwys anffurfiad sy'n ofynnol gan y gyfraith.

mutilation required by law.

Procedures for the Control of Reproduction:

Castration.

Vasectomy.

**Deer**

Identification Procedures:

Ear clipping.

Ear notching.

Ear tagging.

Micro-chipping.

Tattooing.

Other methods of identification involving a mutilation required by law.

Procedures for the Control of Reproduction:

Castration.

Implantation of a subcutaneous contraceptive.

Vasectomy.

Other Management Procedures:

Removal of antlers that are not in velvet.

**Other species**

Identification Procedures:

Ear clipping.

Ear notching.

Ear tipping of feral cats.

Insertion of subcutaneous tracking devices.

Tagging.

Chemical branding of fish.

Freeze branding of fish.

Micro-chipping.

Removal or perforation of parts of fishes' fins, adipose fins or fin rays.

Tattooing.

Other methods of identification involving a mutilation required by law.

Triniaethau ar gyfer Rheoli Atgenhedlu.

Ysbaddu.

Caglu embryonau neu'u trosglwyddo drwy ddull llawfeddygol.

Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen.

Trosglwyddo ofa, gan gynnwys casglu ofa drwy ddull llawfeddygol.

Disbaddu.

Fasdoriad.

Triniaethau Rheoli Eraill:

Laparosgopi.

Tynnu corewinedd cŵn.

Tynnu cen pysgod.

Procedures for the Control of Reproduction:

Castration.

Embryo collection or transfer by a surgical method.

Implantation of a subcutaneous contraceptive.

Ovum transplantation, including ovum collection, by a surgical method.

Spaying.

Vasectomy.

Other Management Procedures:

Laparoscopy.

Removal of the dew claws of dogs.

Removal of fish scales.

## ATODLEN 2

Rheoliad 3

## GWARTHEG: GOFYNION WRTH ROI TRINIAETHAU PENODOL A GANIATEIR

Pan roddir triniaeth i wartheg, a honno'n driniaeth sydd yn y rhestr isod, rhaid iddi gael ei rhoi yn unol â'r amod neu'r amodau a bennir ar gyfer y driniaeth honno.

**1. Ysbaddu**

Os y dull a ddefnyddir yw defnyddio modrwy rwber i gyfyngu ar rediad y gwaed i'r ceillgwd, ni ellir rhoi'r driniaeth ond i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed.

Pan ddefnyddir dull arall, rhaid rhoi anesthetig pan fo'r anifail yn 2 fis oed neu'n hyn na hynny.

**2. Caglu embryonau neu'u trosglwyddo drwy ddull llawfeddygol**

Rhaid rhoi anesthetig.

**3. Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i anifail a ffermir.

## SCHEDULE 2

Regulation 3

## CATTLE: REQUIREMENTS WHEN CARRYING OUT CERTAIN PERMITTED PROCEDURES

When carried out on cattle, a procedure listed below must be carried out in accordance with the condition or conditions specified for that procedure.

**1. Castration**

When the method used is the application of a rubber ring or other device to constrict the flow of blood to the scrotum, the procedure may only be carried out on an animal aged not more than 7 days.

When any other method is used, an anaesthetic must be administered where the animal is aged 2 months or over.

**2. Embryo collection or transfer by a surgical method**

An anaesthetic must be administered.

**3. Implantation of a subcutaneous contraceptive**

The procedure may not be carried out on a farmed animal.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

**4. Trosglwyddo ofa, gan gynnwys casglu ofa drwy ddull llawfeddygol**

Rhaid rhoi anesthetig.

**5. Fasdoriad**

Rhaid rhoi anesthetig.

**6. Digornio**

Rhaid rhoi anesthetig.

**7. Dadimpio**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond i anifail nad yw'n hŷn na 6 mis oed.

Os serio cemegol yw'r dull a ddefnyddir, ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed.

Pan ddefnyddir dull arall rhaid rhoi anesthetig.

**8. Tynnu tethi ychwanegol.**

Rhaid rhoi anesthetig pan fo'r anifail yn 3 fis oed neu'n hyn na hynny.

The procedure may only be carried out as part of a conservation breeding programme.

**4. Ovum transplantation, including ovum collection, by a surgical method**

An anaesthetic must be administered.

**5. Vasectomy**

An anaesthetic must be administered.

**6. Dehorning**

An anaesthetic must be administered.

**7. Disbudding**

The procedure may only be carried out on an animal aged not more than 6 months.

When the method used is chemical cauterisation, the procedure may only be carried out on an animal aged not more than 7 days.

When any other method is used an anaesthetic must be administered.

**8. Removal of supernumerary teats**

An anaesthetic must be administered where the animal is aged 3 months or over.

## ATODLEN 3

Rheoliad 3

## MOCH: GOFYNION WRTH ROI TRINIAETHAU PENODOL A GANIATEIR

Pan roddir triniaeth i fochyn, a honno'n driniaeth sydd yn y rhestr isod, rhaid iddi gael ei rhoi yn unol â'r amod neu'r amodau a bennir ar gyfer y driniaeth honno.

**1. Ysbaddu**

Rhaid i'r dull a ddefnyddir beidio â chynnwys rhwygo meinweoedd.

Rhaid rhoi anesthetig ac analgesia estynedig ychwanegol pan fo'r anifail yn 7 niwrnod oed neu'n hŷn na hynny.

**2. Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i anifail a ffermir.

## SCHEDULE 3

Regulation 3

## PIGS: REQUIREMENTS WHEN CARRYING OUT CERTAIN PERMITTED PROCEDURES

When carried out on a pig, a procedure listed below must be carried out in accordance with the condition or conditions specified for that procedure.

**1. Castration**

The method used must not involve the tearing of tissues.

An anaesthetic and additional prolonged analgesia must be administered where the animal is aged 7 days or over.

**2. Implantation of a subcutaneous contraceptive**

The procedure may not be carried out on a farmed animal.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

The procedure may only be carried out as part of a conservation breeding programme.

**3. Fasdoriad**

Rhaid rhoi anesthetig.

**3. Vasectomy**

An anaesthetic must be administered.

**4. Modrwyo trwynau (cwirso)**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond i anifal nas cedwir yn barhaus mewn system hwsmona dan do.

**4. Nose ringing**

The procedure may only be carried out on an animal that is not kept continuously in an indoor husbandry system.

**5. Tocio cynffonnau**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond os cymerwyd camau yn gyntaf i wella amgylchiadau amgylcheddol neu systemau rheoli er mwyn atal brathu cynffonnau, ond y mae tystiolaeth o hyd i ddangos bod y moch wedi'u hanafu gan frathu cynffonnau.

Rhaid i'r dull a ddefnyddir gynnwys torri'r gynffon yn gyflym ac yn llwyr.

Rhaid rhoi anesthetig ac analgesia estynedig ychwanegol pan fo'r anifail yn 7 niwrnod oed neu'n hŷn na hynny.

**5. Tail docking**

The procedure may only be carried out where measures to improve environmental conditions or management systems have first been taken to prevent tail-biting, but there is still evidence to show that injury to pigs' tails by biting has occurred.

The method used must involve quick and complete severance of the tail.

An anaesthetic and additional prolonged analgesia must be administered where the animal is aged 7 days or over.

**6. Lleihau dannedd**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed.

Rhaid i'r driniaeth gynnwys y canlynol yn unig, sef lleihau'r dannedd cornel drwy naill ai eu rhygnu neu eu clipio gan adael arwyneb llyfn cyfan.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond os cymerwyd camau yn gyntaf i wella amgylchiadau amgylcheddol neu systemau rheoli er mwyn atal brathu cynffonnau ac arferion drwg eraill, ond y mae tystiolaeth o hyd i ddangos bod tethi hychod neu glustiau neu gynffonnau moch eraill wedi'u hanafu drwy frathu.

**6. Tooth reduction**

The procedure may only be carried out on an animal that is aged not more than 7 days.

The procedure must consist only of the uniform reduction of the corner teeth by either grinding or clipping so as to leave an intact smooth surface.

The procedure may only be carried out where measures to improve environmental conditions or management systems have first been taken to prevent tail-biting and other vices, but there is still evidence to show that injury to sows' teats or to other pigs' ears or tails by biting has occurred.

**7. Tocio ysgithrau**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth hon ond pan fo tystiolaeth i ddangos ei bod yn angenrheidiol er mwyn atal anifeiliaid eraill rhag cael eu hanafu neu am resymau diogelwch.

**7. Tusk trimming**

The procedure may only be carried out where there is evidence to show that it is necessary to prevent injury to other animals or for safety reasons.

## ATODLEN 4

Rheoliad 3

## ADAR: GOFYNION WRTH ROI TRINIAETHAU PENODOL A GANIATEIR

Pan roddir triniaeth i aderyn, a honno'n driniaeth sydd yn y rhestr isod, rhaid iddi gael ei rhoi yn unol â'r amod neu'r amodau a bennir ar gyfer y driniaeth honno.

**1. Ysbaddu**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i adar a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

Rhaid rhoi anesthetig.

**2. Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i adar a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

**3. Ofidectomi.**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i adar a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

Rhaid rhoi anesthetig.

**4. Fasdoriad**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i adar a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

Rhaid rhoi anesthetig.

**5. Tocio pig dofednod**

Rhaid rhoi'r driniaeth gan ddefnyddio offeryn addas, ac ar-

(a) y big isaf a'r big uchaf fel ei gilydd, heb fwy na thraean wedi'i dynnu, neu

(b) y big uchaf yn unig, heb fwy na thraean wedi'i dynnu.

Rhaid atal unrhyw waedlif sy'n dod o'r big yn sgil hynny drwy ei serio.

Ar ddofednod y bwriedir iddynt fod yn ieir dodwy ac a gedwir mewn sefydliadau gyda 350 neu ragor o ieir

## SCHEDULE 4

Regulation 3

## BIRDS: REQUIREMENTS WHEN CARRYING OUT CERTAIN PERMITTED PROCEDURES

When carried out on a bird, a procedure listed below must be carried out in accordance with the condition or conditions specified for that procedure.

**1. Castration**

The procedure may not be carried out on farmed birds.

The procedure may only be carried out as part of a conservation breeding programme.

An anaesthetic must be administered.

**2. Implantation of a subcutaneous contraceptive**

The procedure may not be carried out on farmed birds.

The procedure may only be carried out as part of a conservation breeding programme.

**3. Ovidectomy**

The procedure may not be carried out on farmed birds.

The procedure may only be carried out as part of a conservation breeding programme.

An anaesthetic must be administered.

**4. Vasectomy**

The procedure may not be carried out on farmed birds.

The procedure may only be carried out as part of a conservation breeding programme.

An anaesthetic must be administered.

**5. Beak trimming of poultry**

The procedure must be performed using a suitable instrument, and on-

(a) both the lower and upper beaks, with not more than one third of each removed, or

(b) the upper beak only, with not more than one third removed.

Any subsequent haemorrhage from the beak must be arrested by cauterisation.

On poultry that are intended to become laying hens and which are kept on establishments with 350 or more

dodwy, ni chaniateir i'r driniaeth-

(i) ond gael ei rhoi er mwyn atal pigo plu neu ganibaliaeth;

(ii) ond gael ei rhoi cyn 1 Ionawr 2011;

(iii) gael ei rhoi i ddofednod y bwriedir iddynt fod yn ieir dodwy (neu sy'n ieir dodwy) ac sy'n 10 niwrnod oed neu'n hyn.

**6. Torri crogrib**

Pan na fo'r twrci yn hŷn na 21 o ddiwrnodau oed, caniateir rhoi'r driniaeth naill ai drwy ei phinsio allan â llaw neu drwy ddefnyddio offeryn addas.

**7. Tynnu bysedd traed ffowls domestig a thyrcwn**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i aderyn sy'n 3 diwrnod oed neu'n hyn onibai bod llawfeddyg yn barnu ei bod yn angenrheidiol ei rhoi.

Rhaid rhoi anesthetig pan fo'r anifail yn 3 diwrnod oed neu'n hyn na hynny.

**8. Torri crib**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i aderyn sy'n 3 diwrnod oed neu'n hŷn onibai bod llawfeddyg yn barnu ei bod yn angenrheidiol ei rhoi.

Rhaid rhoi anesthetig pan fo'r anifail yn 3 diwrrnod oed neu'n hŷn na hynny.

**9. Laparosgopi**

Rhaid rhoi anesthetig.

**10. Tocio blaenau adennydd**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i adar a ffermir.

Rhaid rhoi anesthetig pan fo'r anifail yn 10 niwrrnod oed neu'n hŷn na hynny.

laying hens, the procedure-

(i) may only be carried out in order to prevent feather pecking or cannibalism;

(ii) may only be carried out before 1st January 2011;

(iii) may not be performed on poultry that are intended to become laying hens (or which are laying hens) and which are aged 10 days or over.

**6. Desnooding**

Where the turkey is aged not more than 21 days, the procedure may be carried out either by manual pinching-out or with a suitable instrument.

**7. De-toeing of domestic fowl and turkeys**

The procedure may not be carried out on a bird that is aged 3 days or over unless a veterinary surgeon considers that it is necessary that it be carried out.

An anaesthetic must be administered where the bird is aged 3 days or over.

**8. Dubbing**

The procedure may not be carried out on a bird that is aged 3 days or over unless a veterinary surgeon considers that it is necessary that it be carried out.

An anaesthetic must be administered where the bird is aged 3 days or over.

**9. Laparoscopy**

An anaesthetic must be administered.

**10. Wing pinioning**

The procedure may not be carried out on farmed birds.

An anaesthetic must be administered where the bird is aged 10 days or over.

## ATODLEN 5

Rheoliad 3

## DEFAID: GOFYNION WRTH ROI TRINIAETHAU PENODOL A GANIATEIR

Pan roddir triniaeth i ddafad, a honno'n driniaeth sydd yn y rhestr isod, rhaid iddi gael ei rhoi yn unol â'r amod neu'r amodau a bennir ar gyfer y driniaeth honno.

**1. Ysbaddu**

Os y dull a ddefnyddir yw defnyddio modrwy rwber i gyfyngu ar rediad y gwaed i'r ceillgwd, ni ellir rhoi'r driniaeth ond i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed.

Pan ddefnyddir dull arall, rhaid rhoi anesthetig pan fo'r anifail yn 3 mis oed neu'n hŷn na hynny.

**2. Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i anifail a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

**3. Fasdoriad**

Rhaid rhoi anesthetig.

**4. Digornio**

Rhaid rhoi anesthetig.

**5. Tocio cynffonnau**

Ym mhob achos, rhaid cadw digon o'r gynffon i guddio llawes goch dafad fenyw neu anws dafad wryw.

Os y dull a ddefnyddir yw defnyddio modrwy rwber neu ddyfais arall i gyfyngu ar rediad y gwaed i'r gynffon, ni ellir rhoi'r driniaeth ond i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed.

Pan ddefnyddir dull arall rhaid rhoi anesthetig.

## SCHEDULE 5

Regulation 3

## SHEEP: REQUIREMENTS WHEN CARRYING OUT CERTAIN PERMITTED PROCEDURES

When carried out on a sheep, a procedure listed below must be carried out in accordance with the condition or conditions specified for that procedure.

**1. Castration**

When the method used is the application of a rubber ring or other device to constrict the flow of blood to the scrotum, the procedure may only be carried out on an animal aged not more than 7 days.

When any other method is used, an anaesthetic must be administered where the animal is aged 3 months or over.

**2. Implantation of a subcutaneous contraceptive**

The procedure may not be carried out on a farmed animal.

The procedure may only be carried out as part of a conservation breeding programme.

**3. Vasectomy**

An anaesthetic must be administered.

**4. Dehorning**

An anaesthetic must be administered.

**5. Tail docking**

In all cases, enough of the tail must be retained to cover the vulva of a female animal or the anus of a male animal.

When the method used is the application of a rubber ring or other device to constrict the flow of blood to the tail, the procedure may only be carried out on an animal aged not more than 7 days.

When any other method is used an anaesthetic must be administered.

## ATODLEN 6

Rheoliad 3

### GEIFR: GOFYNION WRTH ROI TRINIAETHAU PENODOL A GANIATEIR

Pan roddir triniaeth i afr, a honno'n driniaeth sydd yn y rhestr isod, rhaid iddi gael ei rhoi yn unol â'r amod neu'r amodau a bennir ar gyfer y driniaeth honno.

**1. Ysbaddu**

Os y dull a ddefnyddir yw defnyddio modrwy rwber i gyfyngu ar rediad y gwaed i'r ceillgwd, ni ellir rhoi'r driniaeth ond i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed.

Pan ddefnyddir dull arall, rhaid rhoi anesthetig pan fo'r anifail yn 2 fis oed neu'n hŷn na hynny.

**2. Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i anifail a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

**3. Fasdoriad**

Rhaid rhoi anesthetig.

**4. Digornio**

Rhaid rhoi anesthetig.

## SCHEDULE 6

Regulation 3

### GOATS: REQUIREMENTS WHEN CARRYING OUT CERTAIN PERMITTED PROCEDURES

When carried out on a goat, a procedure listed below must be carried out in accordance with the condition or conditions specified for that procedure.

**1. Castration**

When the method used is the application of a rubber ring or other device to constrict the flow of blood to the scrotum, the procedure may only be carried out on an animal aged not more than 7 days.

When any other method is used, an anaesthetic must be administered where the animal is aged 2 months or over.

**2. Implantation of a subcutaneous contraceptive**

The procedure may not be carried out on a farmed animal.

The procedure may only be carried out as part of a conservation breeding programme.

**3. Vasectomy**

An anaesthetic must be administered.

**4. Dehorning**

An anaesthetic must be administered.

## ATODLEN 7

Rheoliad 3

### CEFFYLAU: GOFYNION WRTH ROI TRINIAETHAU PENODOL A GANIATEIR

Pan roddir triniaeth i geffyl, a honno'n driniaeth sydd yn y rhestr isod, rhaid iddi gael ei rhoi yn unol â'r amod neu'r amodau a bennir ar gyfer y driniaeth honno.

## SCHEDULE 7

Regulation 3

### HORSES: REQUIREMENTS WHEN CARRYING OUT CERTAIN PERMITTED PROCEDURES

When carried out on a horse, a procedure listed below must be carried out in accordance with the condition or conditions specified for that procedure.

**1. Ysbaddu**

Rhaid rhoi anesthetig.

**2. Fasdoriad**

Rhaid rhoi anesthetig.

ATODLEN 8

Rheoliad 3

CEIRW: GOFYNION WRTH ROI TRINIAETHAU PENODOL A GANIATEIR

Pan roddir triniaeth i garw, a honno'n driniaeth sydd yn y rhestr isod, rhaid iddi gael ei rhoi yn unol â'r amod neu'r amodau a bennir ar gyfer y driniaeth honno.

**1. Ysbaddu**

Rhaid rhoi anesthetig.

**2. Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i geirw a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

**3. Fasdoriad**

Rhaid rhoi anesthetig.

**4. Tynnu cyrn pan na fydd ceirw yn bwrw eu melfed**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond i geirw a ffermir neu ar geirw a gedwir ar dir yn yr un dull ag fel petaent yn geirw a ffermir.

Ni chaniateir tynnu ond y rhan ansensitif o'r cyrn.

**1. Castration**

An anaesthetic must be administered.

**2. Vasectomy**

An anaesthetic must be administered.

SCHEDULE 8

Regulation 3

DEER: REQUIREMENTS WHEN CARRYING OUT CERTAIN PERMITTED PROCEDURES

When carried out on a deer, a procedure listed below must be carried out in accordance with the condition or conditions specified for that procedure.

**1. Castration**

An anaesthetic must be administered.

**2. Implantation of a subcutaneous contraceptive**

The procedure may not be carried out on farmed deer.

The procedure may only be carried out as part of a conservation breeding programme.

**3. Vasectomy**

An anaesthetic must be administered.

**4. Removal of antlers that are not in velvet**

The procedure may only be carried out on farmed deer or deer that are kept on land in the same manner as if they were farmed deer.

Only the non-sensitive part of the antler may be removed.

ATODLEN 9

Rheoliad 3

RHYWOGAETHAU ERAILL: GOFYNION WRTH ROI TRINIAETHAU PENODOL A GANIATEIR

Pan roddir triniaeth i anifail heblaw un yr ymdrinnir ag ef yn unrhyw un o Atodlenni 2 i 8, a honno'n driniaeth sydd yn y rhestr isod, rhaid iddi gael ei rhoi yn unol â'r amod neu'r amodau a bennir ar gyfer y driniaeth honno.

**1. Torri blaen clust chwith cathod lledwyllt**

Rhaid rhoi anesthetig.

**2. Ysbaddu**

Rhaid rhoi anesthetig.

**3. Caglu embryonau neu'u trosglwyddo drwy ddull llawfeddygol**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

Rhaid rhoi anesthetig.

**4. Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i anifail a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

**5. Trosglwyddo ofa, gan gynnwys casglu ofa drwy ddull llawfeddygol**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

Rhaid rhoi anesthetig.

**6. Disbaddu**

Rhaid rhoi anesthetig.

**7. Fasdoriad**

Rhaid rhoi anesthetig.

**8. Laparosgopi**

Pan na fo'r anifail y mae'r driniaeth i'w rhoi iddo yn ymlusgiad, ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

SCHEDULE 9

Regulation 3

OTHER SPECIES: REQUIREMENTS WHEN CARRYING OUT CERTAIN PERMITTED PROCEDURES

When carried out on an animal other than one dealt with in any of Schedules 2 to 8, a procedure listed below must be carried out in accordance with the condition or conditions specified for that procedure.

**1. Ear tipping of feral cats**

An anaesthetic must be administered.

**2. Castration**

An anaesthetic must be administered.

**3. Embryo collection or transfer by a surgical method**

The procedure may only be carried out as part of a conservation breeding programme.

An anaesthetic must be administered.

**4. Implantation of a subcutaneous contraceptive**

The procedure may not be carried out on a farmed animal.

The procedure may only be carried out as part of a conservation breeding programme.

**5. Ovum transplantation, including ovum collection, by a surgical method**

The procedure may only be carried out as part of a conservation breeding programme.

An anaesthetic must be administered.

**6. Spaying**

An anaesthetic must be administered.

**7. Vasectomy**

An anaesthetic must be administered.

**8. Laparoscopy**

Where the animal on which the procedure is to be performed is not a reptile, the procedure may only be carried out as part of a conservation breeding programme.

Yn y naill achos neu'r llall, rhaid rhoi anesthetig.

In either case, an anaesthetic must be administered.

**9. Tynnu corewinedd cŵn**

Rhaid rhoi anesthetig ac eithrio pan fo'r ci yn gi bach nad yw ei lygaid wedi agor eto.

**9. Removal of the dew claws of dogs**

An anaesthetic must be administered except where the dog is a puppy whose eyes have not yet opened.

**10. Tynnu cen pysgod**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond at ddibenion canfod oed.

**10. Removal of fish scales**

The procedure may only be carried out for the purposes of age determination.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 1029 (Cy.96)

## ANIFEILIAID, CYMRU

## LLES ANIFEILIAID

Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 1029 (W.96)

## ANIMALS, WALES

## ANIMAL WELFARE

The Mutilations (Permitted Procedures) (Wales) Regulations 2007

©℗ Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.50**

W0079/04/07 ON